**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 27 TACHWEDD 2019 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:15)**

**Aelodau CFfDLC yn bresennol:** David Powell (Cadeirydd Dros Dro), Theo Joloza (Aelod), Julie May (Aelod) Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolwyr Deloitte:** Ian Howse

**Swyddogion CFfDLC:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes).

Croesawodd y Cadeirydd Julie May i'r cyfarfod, a gyfetholwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg nes y gellid penodi Cadeirydd newydd.

**1. Ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) a Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr). Bwriadwyd i Sean Gaffney (Cymwysterau Cymru) gymryd rhan yn y cyfarfod drwy gysylltiad Skype, ond nid oedd modd sefydlu cysylltiad.

**2. Datganiadau o fuddiant**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

4.2 Nododd y Pwyllgor na chafwyd adroddiadau archwilio TGCh LIC ar gyfer 2018-19 hyd yn hyn, er iddo gael ymateb gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddweud y byddant yn cael eu hanfon. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y Dirprwy Gyfarwyddwr i'w hatgoffa nad ydym wedi cael yr adroddiadau o hyd.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr **Erbyn**: 26 Chwefror 2020

4.3 Ystyriodd y Pwyllgor y mater o hyfforddiant i aelod staff ychwanegol ar ddefnyddio meddalwedd cyfrifyddu Sage. Crybwyllwyd y byddai hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y gellid recriwtio aelod staff addas.

4.4 Crybwyllwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dangos i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes sut i redeg y gyflogres fisol a'r prosesau cysylltiedig yn rhwydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Chwefror 2020

4.5 Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi cyflwyno cais y Comisiwn ar gyfer Gwobr Iechyd y Gweithle Bach.

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

5.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-20 a **chytuno** arno. **Cytunwyd** y byddai Cynlluniau Gwaith yn y dyfodol yn cynnwys ymarfer Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg dan gyfarfodydd mis Tachwedd a mis Chwefror, er mwyn cyfrif am ddosbarthu'r holiadur.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Chwefror 2020

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2019-20

6.1 Crybwyllodd Ian Howse for y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Medi 2019 wedi cwmpasu Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Rheolaethau Cyffredinol TG. Manylir ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad, sy'n rhoi sgôr sicrwydd Sylweddol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaethau Cyffredinol TG, a sgôr sicrwydd Cymedrol ar gyfer Rheoli Risg. Mae'r adroddiad yn codi dau argymhelliad â blaenoriaeth ganolig a dau argymhelliad â blaenoriaeth isel, sef:

- y dylid gwneud y cysylltiad rhwng amcanion y sefydliad a fframwaith rheoli perfformiad y sefydliad yn fwy eglur;
- y dylid dewis ymatebion risg sy'n cyd-fynd â pharodrwydd y sefydliad i dderbyn risg;
- bod y Comisiwn yn deall bod y sefydliad yn cael ei adael yn ddiamddiffyn o ganlyniad i beidio â chynnal copïau wrth gefn ar gyfer TG ddatgysylltiedig; ac
- y dylid diweddaru blwyddyn yr amcanion corfforaethol yn nogfen Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i adlewyrchu'r flwyddyn ariannol gyfredol.

6.2 Derbyniwyd yr argymhellion a phennwyd terfynau amser ar gyfer eu rhoi ar waith, ac eithrio'r argymhelliad yn ymwneud â newid blwyddyn yr amcanion corfforaethol. Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn ar y sail nad yw amcanion corfforaethol y Comisiwn yn newid yn aml ac, yn hytrach, cynigiwyd hepgor y dyddiad yn gyfan gwbl.

6.3 Nododd y Pwyllgor y risg yn ymwneud â'r diffyg copïau wrth gefn ar gyfer TG ddatgysylltiedig, a'r bregusrwydd posibl mae hynny'n ei greu. Roedd o'r farn nad oedd llawer y gellid ei wneud o ystyried nad oes unrhyw opsiwn ar gyfer y weithdrefn hon ar system gwmwl, a chynigiodd y dylai'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'r mân risg y mae'n ei chreu.

6.4 Amlygodd yr adroddiad fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth Microsoft Online Services yn cynnwys nifer o gyfyngiadau hefyd. Nid oedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn berthnasol i unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad neu argaeledd sy'n deillio o fethiannau mewn lleoliad canolfan ddata Microsoft unigolyn pan fydd cysylltedd rhwydwaith y Comisiwn yn dibynnu ar y lleoliad hwnnw mewn modd nad yw'n ddaearyddol wydn. Gwnaed ymholiadau â Cymwysterau Cymru ynghylch p'un a yw'r Comisiwn yn dibynnu ar gysylltiad unigol, ond roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y mater hwn.

6.5 **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor yn cynnig bod y Comisiwn yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg yn sgil canfyddiadau'r archwiliad a'i argymhelliad, a hefyd yn ystyried ffyrdd i gysylltu rheoli perfformiad y Comisiwn â'r amcanion corfforaethol.

6.6 Nodwyd y byddai'r archwiliad mewnol canol blwyddyn yn cynnwys archwiliad o'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac yn cael ei gynnal ganol mis Ionawr.

## 7. Adolygiad o'r Ymarfer Dilysu Asedau sefydlog

7.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad ymarfer blynyddol CFfDLC i ddilysu asedau sefydlog. Cyfrifwyd am yr holl asedau, ac roedd yn unig fater a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud ag labeli coll ar rai asedau a rhai newidiadau i ddyraniad offer TG o ganlyniad i gyfnewid eitemau rhwng aelodau staff i ganiatáu ar gyfer atgyweirio ac uwchraddio.

## 8. Adolygiad o Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

8.1 Crybwyllwyd bod yr holiadur ar gyfer 2019-20 wedi'i ddosbarthu'n ddiweddar i aelodau ei lenwi. Nodwyd nad oedd copi o'r holiadur wedi cael ei anfon at y Cadeirydd blaenorol, a **chytunwyd** y byddai copi ohono'n cael ei anfon ato i'w lenwi i gwmpasu ei gyfnod fel Cadeirydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 3 Rhagfyr 2019

8.2 Nodwyd bod un o'r cwestiynau yn yr holiadur yn cyfeirio at Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, gan amodi y dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg fod yn wahanol i Ysgrifennydd y Comisiwn. **Cytunwyd** y dylid diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg i nodi y dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor fod yn wahanol i Ysgrifennydd y Comisiwn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 3 Rhagfyr 2019

8.3 Cytunwyd y byddai'r holiaduron a lenwyd yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd Ionawr 2020 er mwyn caniatáu i'r adroddiad gael ei lunio'n barod ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 12 Chwefror 2020

## 9. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

9.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynnydd yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill o'r archwiliadau mewnol ac allanol.

9.2 Nodwyd bod yr argymhelliad o 2017-18 yn ymwneud â diweddaru Polisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiwn wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

9.3 Roedd yr argymhelliad o 2017-18, sef y dylai'r Comisiwn adolygu a diweddaru ei bolisïau staff, i fod i gael ei roi ar waith erbyn 30 Medi 2019, ond fe'i gohiriwyd oherwydd anawsterau wrth geisio cael y polisïau cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Er bod mwyafrif y polisïau wedi'u diweddaru, mae sawl un ohonynt yn weddill o hyd. **Cytunwyd** y dylid rhoi'r polisïau sy'n weddill ar yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn ym mis Rhagfyr, mis Ionawr a mis Chwefror.
**Gweithredu**: Rheolwr Busnes **Erbyn**: 29 Chwefror 2020

9.4 **Cytunwyd** y gellid ystyried bod yr argymhelliad o 2017-18, sef y dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei wasanaethau TG ar y cwmwl yn gadarn ac yn ddiogel, wedi'i roi ar waith yn sgil canlyniadau Adolygiad Diogelwch y Cwmwl yn ddiweddar.

9.5 Nodwyd bod yr argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â sefydlu rhestr wirio i gwmpasu holl weithdrefnau'r arolygon Seneddol i fod i gael ei roi ar waith erbyn Mawrth 2020.

## 10. Adroddiad Rheoli Risg

10.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi rheoli risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor fformat y nodiadau briffio a anfonwyd gan y Comisiwn i Lywodraeth Cymru gyda'r adroddiadau ar gynigion terfynol arolygon.

10.2 **Cytunwyd** y dylai holl Aelodau'r Comisiwn brofi eu cysylltiadau Skype drwy ffonio'r swyddfa o adref.
**Gweithredu**: Aelodau'r Comisiwn **Erbyn**: 29 Chwefror 2020

## 11. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

11.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 29 Hydref 2019. Crybwyllwyd bod y Comisiwn yn ystyried sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ar hyn o bryd.

## 12. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiadau a Datganiadau

12.1 Nododd y Pwyllgor na ddatganwyd unrhyw roddion na lletygarwch ar gyfer 2019-20, hyd yn hyn.

## 13. Cwynion

13.1 Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi derbyn cwyn yn ymwneud ag arolwg etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Prif Weithredwr yn ymdrin â'r gŵyn ar hyn o bryd, a bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn.

## 14. Adroddiad Twyll a Chwythu'r Chwiban

14.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban ar gyfer 2019-20 hyd yn hyn.

## 15. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TG

15.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data ar gyfer 2019-20 hyd yn hyn.

15.2 Nododd y Pwyllgor yr argymhellion a oedd yn codi o’r Adroddiad ar Ddiogelwch y Cwmwl. **Cytunwyd** y byddai’r argymhellion yn cael eu hystyried yn llawn yng nghyfarfod y Comisiwn yn Rhagfyr 2019, ac y byddai’r canlyniad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 17 Rhagfyr 2019

15.3 Nodwyd bod yr ymrestru awtomatig ar gyfer hyfforddiant gwe-rwydo ar-lein i staff wedi’i roi ar waith erbyn hyn. **Cytunwyd** y dylid cysylltu hyfforddiant gwe-rwydo ar-lein ychwanegol i aelodau ag ystyriaeth gyfredol y Comisiwn o ofynion hyfforddiant aelodau.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr **Erbyn**: 31 Mawrth 2020

15.4 Nodwyd bod holl ddyfeisiau TGCh y Comisiwn yn gyfredol erbyn hon o ran meddalwedd gwrthfirws a diweddariadau meddalwedd.

## 16. Unrhyw fater arall

16.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 17. Dyddiad y cyfarfod nesaf

17.1 Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 26 Chwefror 2020.